**PWYLLGOR:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
**DYDDIAD:** **26 EBRILL 2010**
**TEITL:** **DIWYGIO AMOD Y POLISI LIMWSINAU HIR**
**PWRPAS:** **ER PYNDERFYNIAD**
**AWDUR:** **PENNAETH GWASANAETH RHEOLEIDDIO**

## CEFNDIR

Atodir adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trwyddedu ar 17 Awst 2004 yn sefydlu polisi ar gyfer cerbydau limwsin hir. Gweler o'r polisi mai trwydded debyg i'r un a roddir ar gerbydau hurio preifat a sefydliwyd, sef am gyfnod o dim mwy na 10 mlynedd. Beth bynnag, rydym wedi derbyn ceisiadau i adolygu'r polisi o ran cyfyngu i 10 oed, yn benodol am nad yw'r cerbydau yma'n gyffredinol yn gwneud yr un lefel o filltiroedd ac y gwneir gan gerbydau hurio preifat cyffredinol.

Rydym ar y funud yn adolygu ein amodau hacni a hurio preifat yn gyffredinol, er ceisio adlewyrchu'r newidiadau sy'n cymryd lle oddifewn i'r diwydiant. Oherwydd yr angen i ni sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cyfarfod a'r gofynion; yr angen i ymgynhori, ac i adlewyrchu'r ffaith bod un o'r prif swyddogion yn y maes wedi bod yn absenol am beth amser oherwydd gwaeledd, nid ydym ar y funud mewn sefyllfa i gyflwyno'r adroddiad i ystyriaeth y Pwyllgor.

## Y FFORDD YMLAEN

Mae'n rhaid cydnabod, o ystyried natur y cerbydau yma, nad ydynt yn gwneud yr un lefel o filltiroedd a cerbydau hurio preifat arferol a bod lle i'w trin yn wahanol. Felly, er ceisio datrusiad i'r sefyllfa bresennol, gofynnir i'r Pwyllgor ychwannegu cymal arall i'r polisi presennol.

Mewn ymateb i drafodaeth gyda'r Cymdeithas Limwsinau a Gyrrwyr Cenedlaethol, argymhellir ymestyn caniatad i gerbydau dros 10 oed cyn bellad a'u bod yn derbyn prawf mecanyddol pob 10 wythnos, sydd yn cyfateb a 5 prawf y flwyddyn.

## YMGYNGHORI

Yn ychwanegol i gynnal trafodaeth gyda'r Cymdeithas Limwsinau a Gyrrwyr Cenedlaethol, rydym hefyd wedi trafod gyda cynrychiolwyr o'r diwydiant yn lleol, ac meant yn fodlon i'r eithrad yma i ganiatau'r cerbydau dderbyn trwydded os byddent dros 10 oed, cyn belled a'u bod yn derbyn 5 prawf mecanyddol pob blwyddyn, oddeutu 10 wythnos arwahan i'w gilydd.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad i ychwanegu amod i'r polisi presennol ar gyfer Limwsinau Hir.